**Rhif:** WG31003

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Dewisiadau ar gyfer gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Dyddiad cyhoeddi: 27 Chwefror 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 9 Mehefin 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017

# Dewisiadau ar gyfer gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau am sut y dylai Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gael ei weithredu os bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol. Mae'n canolbwyntio ar yr egwyddorion eang sy'n gysylltiedig â gweithredu. Mae'r Bil yn creu system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y system newydd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **9 Mehefin 2017** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn ymgyngoriadau.llyw.cymru |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk |

**Diogelu data**

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**
**Cefndir** **4**
Egwyddorion sy'n sail i'n dull gweithredu 4
Y system anghenion dysgu ychwanegol arfaethedig 4
Cyd-destun 6
**Cwestiwn 1: Sut y dylid mynd ati i roi'r cynlluniau datblygu unigol ar waith?** **8**
Dewis 1a. Cyflwyno'r cynlluniau datblygu unigol ar un dyddiad penodol 8
Dewis 1b. Cyflwyno cynlluniau datblygu unigol mewn cyfnodau gorfodol 9
**Cwestiwn 2: Os dylid cyflwyno cynlluniau datblygu unigol gam wrth gam, sut y gellid eu rhannu yn ôl *tranche*?** **10**
Dewis 2a. Cynlluniau statudol presennol 10
Dewis 2b. Lleoliad addysg 11
Dewis 2c. Cyfnodau allweddol 11
Dewis 2d. Cyfnodau pontio arwyddocaol 12
Dewis 2e. Awdurdodau lleol yn 'mabwysiadu'n gynnar' 12
**Cwestiwn 3: Beth yw eich barn am y blaenoriaethau o ran sicrhau cymorth gan Lywodraeth Cymru i bartneriaid darparu wrth iddynt baratoi i drosglwyddo i'r system newydd?** **13**

# Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (y Bil) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2016. Mae Aelodau Cynulliad yn ystyried y Bil ar hyn o bryd a byddant yn penderfynu a ddylid gwneud unrhyw welliannau ac a ddylid pasio'r Bil neu ei wrthod. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu Aelodau gyda'r broses hon, drwy glywed amrywiaeth mor eang â phosibl o safbwyntiau wrth bwyso a mesur goblygiadau gweithredu'r Bil os bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol.

2. Diben y ddogfen ymgynghori hon yw cael barn amrywiaeth eang o randdeiliaid – gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid trydydd sector, yn ogystal â rhieni, gofalwyr a phlant a phobl ifanc eu hunain – ar y dull o weithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd sy'n cael ei ystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd.

3. Rydym yn awyddus i glywed barn eang rhanddeiliaid a phartneriaid darparu ar weithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cynlluniau datblygu unigol – y cynlluniau statudol newydd arfaethedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n bosibl mai dyma elfen fwyaf arwyddocaol y system newydd o ran cynllunio'r dull gweithredu a'r pecyn cymorth cysylltiedig mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w ddarparu i bartneriaid darparu yn ystod y cyfnod pontio.

4. Rydym yn awyddus i glywed eich barn ar a ddylem ddefnyddio dull uniongyrchol neu gam wrth gam o droi cynlluniau presennol yn gynlluniau datblygu unigol a pha gymorth fydd ei angen ar bartneriaid darparu yn ystod y cyfnod gweithredu. Disgrifir amryw o faterion yn y tudalennau canlynol, ynghyd â goblygiadau y dylid eu hystyried wrth bwyso a mesur yr opsiynau.

5. Bydd adborth mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i bennu'r farn gyffredinol am yr egwyddorion a'r themâu eang ynghylch sut y dylai'r fframwaith deddfwriaethol newydd gael ei weithredu, gan ein galluogi i ddatblygu cynlluniau a threfniadau manwl er mwyn cynorthwyo partneriaid darparu i baratoi ar gyfer y broses o bontio i'r system newydd, os bydd y Bil yn cael ei basio gan y Cynulliad ac yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

6. Bydd agweddau eraill ar weithredu'r system newydd yn ddarostyngedig i ymgysylltu manylach maes o law. Er enghraifft, bydd y bwriad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros sicrhau lleoliadau ôl-16 arbenigol o Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol yn amodol ar ymgysylltu manwl ag Is-grŵp Dosbarthu Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol.

7. Rydym wedi gweithio gyda grŵp cynrychiadol o randdeiliaid trwy'r Grŵp Gweithredu Strategol ADY i ddatblygu'r opsiynau hyn. Byddwn hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ym misoedd Chwefror a Mawrth gydag ymarferwyr, rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd i drafod yr opsiynau hyn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy amryw o grwpiau technegol ac arbenigol i ddatblygu cynlluniau gweithredu manylach.

8. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 9 Mehefin 2017, a byddwn yn myfyrio ar yr adborth cyn penderfynu ar y dull a ffefrir. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn ddiweddarach yn 2017.

# Cefndir

## Egwyddorion sy'n sail i'n dull gweithredu

9. Yn 2015, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Fil drafft a chyhoeddodd amlinelliad o'r cynlluniau ar gyfer newidiadau deddfwriaethol i'w rhoi ar waith ledled Cymru[1]. Sefydlodd hyn nifer o egwyddorion craidd sy'n sail i'n dull o weithredu, gan gynnwys sicrhau bod gan ddysgwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol ddigon o amser i ddod yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig a pharatoi ar gyfer yr effaith y bydd y newidiadau hyn yn ei chael.

10. Mae'r egwyddor bod rhaid sicrhau bod yna ddigon o amser, adnoddau a chymorth i reoli'r pontio o'r system bresennol i'r system newydd mewn ffordd gydlynol sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu paratoi i ddarparu'r system newydd yn effeithiol yn rhan annatod o hyn. Mae'n rhaid i ni gyd-bwyso'r angen i gyflwyno system newydd – a fydd â manteision sylweddol i ddysgwyr yn ein tyb ni – cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc y cyfle gorau posibl i fanteisio arnynt, yn erbyn yr angen i sicrhau nad yw'r rhuthr i weithredu system newydd mewn amserlen afrealistig yn cael effaith niweidiol ar blant, pobl ifanc a theuluoedd.

11. Law yn llaw â hyn, rydym am leihau'r cymhlethdodau a'r dryswch posibl a allai godi o ganlyniad i gynnal dwy system ochr yn ochr â'i gilydd trwy symud i'r system newydd yn llawn cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

12. Felly mae angen i'r amserlen ar gyfer gweithredu fod yn rhesymol o safbwynt y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu yn ogystal â phlant, pobl ifanc a theuluoedd a ddylai elwa o'r system ddiwygiedig.

## Y system anghenion dysgu ychwanegol arfaethedig

13. Mae'r system anghenion dysgu ychwanegol arfaethedig yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol (y Bil), gyda rheoliadau a chod anghenion dysgu ychwanegol newydd yn sail iddo, a fydd yn disodli'r cod ymarfer anghenion addysgol arbennig presennol. Bydd y cod yn amlinellu sut y dylai'r fframwaith statudol newydd weithredu yn ymarferol, a bydd yn cynnwys gofynion gorfodol mewn perthynas â sawl agwedd ar y system newydd a fydd yn cael yr un effaith statudol â rheoliadau. Bydd drafft o'r Cod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn maes o law.

14. Mae elfennau allweddol y fframwaith statudol newydd arfaethedig wedi'u gosod ar wyneb y Bil. Mae esboniad manwl o'r darpariaethau deddfwriaethol ar gael yn y nodiadau esboniadol a'r memorandwm esboniadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil[2].

15. Mae'r Bil yn cynnig y dylid creu system unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol o'u geni hyd nes eu bod yn 25 oed, gan ddisodli'r systemau ar wahân sy'n bodoli ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol

[1] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-drafft-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru
[2] www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16496

arbennig (AAA) mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach (AB).

16. Mae'r Bil yn cynnig y dylid creu cynllun statudol sengl – y cynllun datblygu unigol – i ddisodli'r amrywiaeth sydd ar hyn o bryd o gynlluniau ADY ac AAD statudol ar gyfer dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion ac AB. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys datganiadau AAA, cynlluniau addysg unigol ar gyfer dysgwyr a gefnogir trwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar/gweithredu gan yr ysgol neu weithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy/gweithredu gan yr ysgol a mwy, a chynlluniau dysgu a sgiliau a gynhelir trwy asesiadau o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

17. Bydd y fframwaith cynllun datblygu unigol sengl yn sicrhau mwy o gysondeb a dilyniant ac, yn wahanol i'r system bresennol, bydd yn sicrhau bod darpariaeth a hawliau yn cael eu diogelu, waeth pa mor ddifrifol neu gymhleth yw'r anghenion. Ar hyn o bryd, mae gan tua 2% o ddysgwyr oedran ysgol ddatganiadau AAA statudol, ac mae 20% yn cael eu hadnabod fel dysgwyr ag AAA ond nad oes ganddynt gynllun statudol.

18. O dan y system newydd arfaethedig, byddai gan bob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol (diffiniad digon tebyg i'r rhai y nodir bod ganddynt AAA ar hyn o bryd) hawl i gael cynllun datblygu unigol, gyda hawliau statudol i dderbyn y ddarpariaeth a amlinellir yn y cynllun datblygu unigol a hawliau apelio cysylltiedig i'r tribiwnlys, a fydd yn disodli Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

19. Bydd y broses o baratoi a diwygio cynllun datblygu unigol yn symlach o lawer nag ydyw ar hyn o bryd gyda datganiadau AAA, a dylai osgoi natur wrthwynebol y dull gor-fiwrocrataidd presennol.

20. Ar gyfer y rhan fwyaf o blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, mae'r Bil yn cynnig y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'w cynllun datblygu unigol gael ei ymgorffori yn eu cynlluniau addysg personol fel rhan o'u cynlluniau gofal a chymorth. Bydd hyn yn osgoi dyblygu ymdrech ac yn sicrhau bod anghenion addysgol plentyn sy'n derbyn gofal yn cael eu hystyried mewn ffordd gyfannol.

21. Os bydd y Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ac yn dod yn Ddeddf, bydd angen nifer o gamau cyn y gall y system anghenion dysgu ychwanegol gychwyn.

22. Bydd y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn cael eu cychwyn drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru (gweler adran 87 y Bil fel y'i cyflwynwyd). Bydd hyn yn rhoi'r disgresiwn i Weinidogion Cymru benderfynu pryd fydd y gyfraith yn newid mewn gwirionedd, ac er enghraifft, a ddylai'r newid ddigwydd yn gynt i rai cohortiaid nag i eraill.

23. Y cynharaf y gallai'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol yw tua Nadolig 2017.

24. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cod ar anghenion dysgu ychwanegol (gweler adran 4 y Bil fel y cyflwynwyd), ymgynghori yn ei gylch a'i gyhoeddi. Mae'n cynnwys darpariaeth i wneud nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth hefyd. Rydym wedi cyhoeddi Datganiad o Fwriad y

Polisi sy'n amlinellu ein bwriadau mewn perthynas â'r swyddogaethau is-ddeddfwriaeth hyn. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, rheoliadau yn ymwneud â'r ffordd mae'r tribiwnlys addysg yn gweithredu neu lefel y wybodaeth i'w chofnodi ar y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbenigol annibynnol lle bydd awdurdodau lleol yn gallu sicrhau darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

25. Mae drafft cynnar o'r cod a datganiad o fwriad y polisi ar gyfer y rheoliadau ar gael yn ystod y broses o graffu ar y Bil er mwyn helpu Aelodau Cynulliad i ddeall sut y bwriedir gweithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd yn ymarferol a'u cynorthwyo gyda'r broses o graffu ar y Bil.

26. Cyhyd ag y bydd y Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, bydd y cod yn cael ei ddiwygio er mwyn ystyried unrhyw welliannau a wnaed i'r Bil gan y Cynulliad ac unrhyw waith pellach a wnaed i fireinio'r drafft.

27. Yna bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n ffurfiol ar y drafft diwygiedig o'r cod a'r rheoliadau drafft, yn dilyn Cydsyniad Brenhinol.

## Cyd-destun

28. Mae angen ystyried amryw o ffactorau mewn perthynas â gweithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd. Mae'r rhain yn ymwneud â newidiadau sylweddol eraill sy'n effeithio ar gyrff sector cyhoeddus gyda dyletswyddau o dan fframwaith deddfwriaethol anghenion dysgu ychwanegol.

29. Mewn ymateb i'r adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus*, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu cwricwlwm a fframwaith asesu newydd ar gyfer Cymru sy'n gwbl gynhwysol, gan gydnabod pwysigrwydd dulliau sy'n canolbwyntio ar y person a pholisïau asesu sy'n diwallu anghenion dysgu pob dysgwr[3]. Y bwriad yw y bydd hyn yn arwain at ddylunio, datblygu a chyflwyno cwricwlwm newydd, gyda deddfwriaeth newydd yn sail iddo, a ddefnyddir i gefnogi addysgu a dysgu mewn lleoliadau ac ysgolion erbyn mis Medi 2021. Cynigir hefyd y dylai hyn gynnwys newidiadau i addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon, datblygiad proffesiynol athrawon presennol, newidiadau i fframwaith arolygu Estyn a newidiadau i bolisïau casglu data ac atebolrwydd.

30. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu cynigion i ddiwygio llywodraeth leol. Mae'r Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*, a gyhoeddwyd i ymgynghori arno ym mis Ionawr 2017, yn gwahodd sylwadau ar a ellid cyflawni elfennau o swyddogaethau anghenion dysgu ychwanegol awdurdodau lleol yn effeithiol ar lefel ranbarthol. Mae'r cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol a datblygu trefniadau rhanbarthol atebol, cadarn ar sail statudol yn cyflwyno cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil yn fwy effeithiol a'r rhaglen o drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol yn ehangach. Felly, efallai y bydd gan ganlyniad yr ymgynghoriad hwn oblygiadau arwyddocaol ar gyfer y ffordd y bydd gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu rheoli a'u trefnu yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod amseru gweithredu diwygio llywodraeth leol a'r dyletswyddau deddfwriaethol newydd a amlinellir ym Mil Anghenion Dysgu

[3] Welsh Government (2015), *A curriculum for Wales – a curriculum for life* [http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?skip=1&lang=cy)

Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael eu rheoli'n ofalus mewn ffordd gydlynol sy'n gydategol.

## Cwestiwn 1: Sut y dylid mynd ati i roi’r cynlluniau datblygu unigol ar waith?

31. Hoffem gael eich barn ar a ddylai’r dull o weithredu cynlluniau datblygu unigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol gael ei gyflwyno gam wrth gam ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr, neu a ddylai fod ar gael i bob dysgwr cymwys ar yr un pryd os bydd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

32. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i’r egwyddor na ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc golli darpariaeth neu amddiffyniad statudol presennol sy’n angenrheidiol er mwyn diwallu ei anghenion yn ystod neu o ganlyniad i drosglwyddo i’r system newydd. Mewn gwirionedd, golyga hyn i raddau y byddai’r systemau AAA/AAD cyfredol yn parhau i weithredu ochr yn ochr â’r system anghenion dysgu ychwanegol newydd, tan y pwynt terfyn penodol pan na fyddai darpariaethau statudol perthnasol Deddf Addysg 1996 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn berthnasol. (Er enghraifft, bydd y dysgwyr hynny sydd â datganiadau AAA cyfredol yn parhau i fod â’r un hawliau ac amddiffyniad cyfreithiol tan y bydd cynllun datblygu unigol ar waith.)

33. Un o’r egwyddorion sy’n sail i’n dull o weithredu ac a nodwyd ar adeg yr ymgynghoriad yn y fersiwn ddrafft o’r Bil oedd y ‘dylai cynlluniau datblygu unigol gael eu cyflwyno gam wrth gam dros gyfnod penodol o amser er mwyn caniatáu digon o amser i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg adolygu’r cynlluniau a’r polisïau presennol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag AAA neu anawsterau a/neu anableddau dysgu.’

34. Fodd bynnag, byddai yna wahanol ffyrdd y gallai cynlluniau datblygu unigol gael eu cyflwyno yn ystod cyfnod gweithredu. Gallem osod dyddiad gweithredu a chaniatáu i awdurdodau lleol bennu eu dull eu hunain trwy gyflwyno’r system newydd yn eu hardaloedd neu ragnodi dull cam wrth gam ledled Cymru ar lefel genedlaethol.

35. Ein rhagdybiaeth yw y byddai pob newydd-ddyfodiad i’r system – mewn geiriau eraill, unrhyw ddysgwyr sydd angen cynllun am y tro cyntaf – yn cael cynllun datblygu unigol o’r amser y bydd y system newydd yn dod i rym. Felly, mae’r opsiynau isod yn ymwneud â’r broses o droi cynlluniau presennol – datganiadau, cynlluniau addysg unigol, cynlluniau dysgu a sgiliau, cynlluniau ôl-16 a chynlluniau addysg personol – yn gynlluniau datblygu unigol. Fodd bynnag, byddem yn croesawu eich barn ar ba mor rhesymol yw’r rhagdybiaeth hon.

36. Rydym yn croesawu eich barn ar y dewisiadau canlynol.

### Dewis 1a. Cyflwyno’r cynlluniau datblygu unigol ar un dyddiad penodol

37. Yn ddamcaniaethol, byddai dull o roi’r cyfan ar waith ar unwaith yn golygu y byddai’r system newydd yn berthnasol i bob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol o’r un pwynt mewn amser. Gellid dadlau bod hwn yn ddull tecach gan y byddai’n osgoi rhoi blaenoriaeth i rai dysgwyr dros eraill. Fodd bynnag, efallai y bydd y goblygiadau llwyth gwaith sylweddol o ran creu cynlluniau datblygu unigol ar gyfer bron i chwarter yr holl ddysgwyr i’r un amserlen (a’r dyddiadau diwygio dilynol i gyd tua’r un pryd) yn golygu bod hynny’n anymarferol. Yn ymarferol, efallai y byddai’n well gosod cyfnod

rhwng dechrau cyhoeddi cynlluniau datblygu unigol a dyddiad terfynol er mwyn sicrhau bod gan bob dysgwr cymwys gynllun datblygu unigol ar waith.

38. Yn anochel, byddai hyn yn golygu y byddai pob lleoliad neu ardal yn pennu ei sail resymegol ei hun ar gyfer sut i reoli a blaenoriaethu'r gwaith o drosglwyddo a chreu cynlluniau newydd. Byddai hyn yn caniatáu i bob ardal leol bennu'r dull gorau ar gyfer ei chyd-destun – er enghraifft, efallai y byddai awdurdodau lleol a oedd wedi bod yn rhan o gynlluniau peilot anghenion dysgu ychwanegol a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i weithredu cynlluniau datblygu unigol ar gyfer cohort mwy o faint o ddysgwyr, oherwydd byddant wedi bod yn gweithredu agweddau ar y system newydd ers cryn amser. Fodd bynnag, byddai'n creu anghysondeb ledled Cymru o ran y sail resymegol a chyflymder cyflwyno cynlluniau datblygu unigol, hawliau dysgwyr yn amrywio'n annheg yn dibynnu ar eu lleoliad a chymhlethdod y pontio rhwng ardaloedd ac apelau tribiwnlys.

## Dewis 1b. Cyflwyno cynlluniau datblygu unigol mewn cyfnodau gorfodol

39. Byddai dull cam wrth gam o weithredu cynlluniau datblygu unigol yn rhoi mwy o amser i ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ddatblygu cynlluniau datblygu unigol statudol gan ddefnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person am y tro cyntaf. Byddai hyn yn adlewyrchu graddfa'r newidiadau, nifer y dysgwyr yr effeithir arnynt ac ymarferoldeb ymgysylltu ag amryw o asiantaethau yn y dull sy'n canolbwyntio ar y person.

40. Mae gan y dull hwn y potensial i greu cymhlethdodau yn ystod y cyfnod gweithredu pe bai hawliau, dyletswyddau a phwerau gwahanol mewn perthynas â dysgwyr mewn gwahanol leoliadau, ardaloedd neu â lefelau gwahanol o ran anghenion (er mai dyma'r achos eisoes dan y system statudol gyfredol). Fodd bynnag, drwy wneud y camau'n orfodol yn genedlaethol, byddai cysondeb ar hyd a lled Cymru mewn perthynas â gweithredu'r hawliau.

## Cwestiwn 2: Os dylid cyflwyno cynlluniau datblygu unigol gam wrth gam, sut y gellid eu rhannu yn ôl *tranche*?

41. Os byddwn yn mabwysiadu dull cam wrth gam er mwyn gweithredu cynlluniau datblygu unigol, byddai nifer o ddewisiadau posibl ar gyfer rhannu fesul *tranche*. Dyma amlinelliad ohonynt.

42. O ystyried y ffaith bod cynlluniau ar gyfer dysgwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl bod yr adolygiadau blynyddol hyn wedi'u defnyddio yn ystod y cyfnod pontio fel cyfle i droi cynlluniau presennol yn gynlluniau datblygu unigol, gan ddefnyddio egwyddorion ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person ac yn unol â'r canllawiau a'r gofynion yn y cod anghenion dysgu ychwanegol newydd.

43. Rydym yn cydnabod efallai y bydd defnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person i greu cynlluniau datblygu unigol am y tro cyntaf yn cymryd mwy o amser na'r broses adolygu blynyddol bresennol, ond mae'r dystiolaeth gan y rhai sydd eisoes wedi mabwysiadu'r dull hwn yn awgrymu ei fod yn arwain at welliannau sylweddol i ansawdd cynlluniau, cyfraniad dysgwyr at y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yr ymgysylltu â rhieni ac, unwaith mae'r cynllun cychwynnol wedi'i ddatblygu, mae'n ddull haws a mwy hyblyg i adolygu a diweddaru'n barhaus. Er hynny, rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod digon o amser i drosi cynlluniau yn ystod y cyfnod pontio.

44. Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, hoffem gael eich barn ar faint o amser y dylid ei neilltuo i droi cynlluniau dysgwyr ym mhob grŵp yn gynlluniau datblygu unigol.

45. Byddai cael y system ar waith yn gyflym yn golygu y byddai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sydd heb hawliau statudol ar hyn o bryd yn gallu cael mynediad at hawliau newydd yn gyflym. Byddai hefyd yn lleihau'r amser y byddai ei angen i wasanaethau weithredu'r system bresennol a'r system newydd ar yr un pryd, y gwerthfawrogwn a allai fod yn gryn her.

46. Fodd bynnag, rydym yn deall y bydd angen gwneud llawer o waith cynllunio a pharatoi cyn newid i'r system newydd, ac mae angen i'r amserlenni ganiatáu i bob partner gymryd rhan mewn ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn datblygu cynlluniau datblygu unigol. Mae yna berygl y byddai ei gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau statudol gael eu rhoi ar waith ar gyfer pob dysgwr cymwys yn rhy gynnar yn rhoi gormod o bwysau ar y gweithlu ac na fyddai'r system newydd yn cael ei chyflwyno'n effeithiol.

47. Mae'n bwysig nad ydym yn colli momentwm yn y cyfnod gweithredu, a rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno'n esmwyth. Bydd dod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng bod â'r amser a'r adnoddau i weithredu'r system newydd, heb ddisgwyl i ddysgwyr a gwasanaethau ymdopi â dwy system yr un pryd am gyfnod rhy hir, yn hanfodol.

### Dewis 2a. Cynlluniau statudol presennol

- Tranche un: Dysgwyr gyda Datganiadau AAA a/neu Gynlluniau Addysg Personol presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY

- Tranche dau: Dysgwyr gyda chynlluniau anstatudol presennol (Gweithredu gan yr Ysgol/ Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/ / Gweithredu gan y Blynyddoedd Cynnar / Gweithredu gan y Blynyddoedd Cynnar a Mwy / Cynlluniau Dysgu a Sgiliau)

48. Byddai’r dewis hwn yn seiliedig ar droi cynlluniau statudol presennol i’r system newydd cyn ymestyn hawliau o’r fath i gohort newydd, a byddai’n blaenoriaethu’r rhai â’r lefel uchaf o angen yn gyntaf. Mae llawer llai o ddysgwyr â datganiad o gymharu â’r rhai sydd â chynlluniau anstatudol eraill, ond maent yn llawer mwy cymhleth ac mae mwy o asiantaethau’n rhan ohonynt.

49. Mae cynnwys plant sy’n derbyn gofal sydd â chynlluniau addysg personol yn y grŵp cyntaf, ynghyd â’r dysgwyr hynny sydd â datganiadau AAA presennol yn cydnabod pwysigrwydd gwella’r broses o gydgysylltu dulliau cynllunio ar gyfer anghenion addysgol y grŵp hwn o ddysgwyr agored i niwed.

50. Gallai’r dewis hwn greu gorgyffwrdd sylweddol o ran yr apelau y gellid eu clywed gan y tribiwnlys (gan y byddai’n rhaid iddo ymdrin ag apelau o dan y gyfraith bresennol a newydd am gyfnod), ond dylai fod yn broses bontio gymharol syml. Yr anfantais yw bod gwahaniaethau presennol mewn ymarfer o dan y cod ymarfer AAA presennol ar gyfer Cymru yn golygu y bydd gan ddysgwyr â lefelau cymharol uchel o angen o bosib ddatganiad neu beidio, yn unol ag amrywiadau mewn ymarfer lleol.

## Dewis 2b. Lleoliad addysg

- Tranche un: Dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau’r blynyddoedd cynnar
- Tranche dau: Dysgwyr mewn lleoliadau ôl-16

51. Byddai’r dewis hwn yn golygu ysgolion a lleoliadau’r blynyddoedd cynnar yn rhoi’r broses gynllunio statudol newydd ar waith ar gyfer cynlluniau datblygu unigol yn gyntaf, a rhoi mwy o amser i leoliadau ôl-16 baratoi ar gyfer gweithredu. Byddai’n rhoi mwy o amser i awdurdodau lleol baratoi ar gyfer eu dyletswyddau newydd mewn perthynas â dysgwyr ôl-16, gan gynnwys cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau lleoliadau arbenigol ôl-16 lle y bo’n briodol. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn darparu'r trosglwyddiad symlaf i’r tribiwnlys, gan osgoi'r angen i gynnal dwy system apelio ar yr un pryd. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu y byddai’r holl ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar yn gymwys am gynllun datblygu unigol yn y grŵp cyntaf, a gallai hyn roi baich sylweddol ar y gweithlu.

## Dewis 2c. Cyfnodau allweddol

- Tranche un: Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2
- Tranche dau: Cyfnod allweddol 3, 4 ac ôl-16

52. Byddai’r dewis hwn yn blaenoriaethu’r dysgwyr hynny sydd yng nghamau cynnar eu haddysg yn gyntaf, er mwyn cydnabod pwysigrwydd adnabod ac ymyrryd yn gynnar, sy’n un o gonglfeini’r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, byddai’n golygu y byddai’n rhaid i’r tribiwnlys gynnal dwy system apelio ar yr un pryd am gyfnod hwy, gan arwain o bosibl at ddiffyg eglurder i’r rhai sydd am gyflwyno apêl, yn ogystal ag achosi baich gweinyddol ychwanegol.

## Dewis 2ch. Cyfnodau pontio arwyddocaol

- Tranche un: Y rhai sy’n symud rhwng lleoliadau ysgol, awdurdod lleol neu gyfnod allweddol
- Tranche dau: Pawb arall

53. Byddai’r dewis hwn yn blaenoriaethu’r dysgwyr hynny ar bwyntiau pontio allweddol er mwyn cydnabod pwysigrwydd sicrhau dulliau cynllunio effeithiol ar gyfer pontio a manteisio ar y cyfle i adolygu cynlluniau presennol a darpariaeth ar gyfer lleoliad neu gyfnod allweddol newydd. Byddai hefyd yn golygu y byddai’n rhaid i’r tribiwnlys gynnal dwy system apelio ar yr un pryd am gyfnod hwy, gan arwain o bosibl at ddiffyg eglurder i’r rhai sydd am gyflwyno apêl a beichiau gweinyddol.

## Dewis 2d. Awdurdodau lleol yn ‘mabwysiadu’n gynnar’

- Tranche un: Yr awdurdodau lleol hynny sydd fwyaf ‘parod’ (y rhai a oedd yn awdurdodau treialu)
- Tranche dau: Pawb arall

54. Bydd rhai awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai a gymerodd ran yn rhaglenni treialu anghenion dysgu ychwanegol rhwng 2008 a 2012, wedi bod yn gweithredu ffyrdd o weithio sy’n cyd-fynd a’r system newydd arfaethedig am beth amser a gallent fod yn awyddus i symud i’r system statudol newydd arfaethedig, a byddai llawer ohonynt wedi bod yn allweddol yn y gwaith o ddatblygu’r ystyriaethau cynnar yn ymwneud â’r diwygiadau. Byddai model ‘mabwysiadwr cynnar’ yn galluogi’r awdurdodau lleol hyn i gychwyn defnyddio’r system newydd arfaethedig yn y *tranche* cyntaf, gan roi mwy o amser i awdurdodau lleol eraill i baratoi ar gyfer gweithredu ac i ddysgu o brofiad eraill. Fodd bynnag, byddai’n creu darpariaeth gymysg ar draws Cymru a gallai arwain at gynnydd yn y galw mewn rhai awdurdodau lleol sy’n darparu’r system newydd arfaethedig. Unwaith eto, gallai olygu hefyd cynnal y systemau apelio a thribiwnlys presennol a newydd ar yr un pryd am gyfnod estynedig.

## Cwestiwn 3: Beth yw eich barn am y blaenoriaethau o ran sicrhau cymorth gan Lywodraeth Cymru i bartneriaid darparu wrth iddynt baratoi i drosglwyddo i'r system newydd?

55. Mae'r Bil yn rhan allweddol o'n rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol, sy'n ceisio newid y system yn gyfan gwbl. Nid yw ei effaith wedi'i chyfyngu i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol; mae'n rhan allweddol o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer addysg yng Nghymru – sef cynhwysiant, uchelgais a safonau uchel.

56. Fel rhan o'r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol, bydd Llywodraeth Cymru yn helpu partneriaid darparu i baratoi a rheoli'r pontio i'r system newydd arfaethedig. Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes[4] becyn buddsoddiad o £20 miliwn ar gyfer y cyfnod o 2017-18 tan 2020-21 i gefnogi'r rhaglen drawsnewid.

57. Nod y buddsoddiad yw sicrhau bod partneriaid darparu mor barod â phosibl i weithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd arfaethedig ac y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i ddysgwyr.

58. Ein bwriad yw defnyddio llawer o'r buddsoddiad hwn i ddarparu gweithgareddau datblygu'r gweithlu i uwchsgilio'r rhai sy'n cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol y wybodaeth, yr arbenigedd a'r hyder yn hollbwysig, o ran y gweithlu cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol newydd neu sgiliau craidd i staff mewn ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, sefydliadau addysg bellach, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

59. Rydym yn bwriadu darparu cyllid grant i bartneriaid i hwyluso'r gwaith o weithredu'r darpariaethau a amlinellir yn y Bil, er mwyn cefnogi awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, y tribiwnlys, byrddau iechyd ac Estyn. Bydd hyn yn adeiladu ar y cyllid grant sydd eisoes wedi'i sefydlu i gyflwyno ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person a thrwy'r gronfa arloesi anghenion dysgu ychwanegol i helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddatblygu a gwella trefniadau gweithio amlasiantaethol i helpu i ddarparu gwasanaethau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

60. Yn ogystal, rydym yn cynnig penodi tîm o gefnogwyr strategol anghenion dysgu ychwanegol i ddarparu cyngor, cymorth a her i'n partneriaid darparu yn ystod y cyfnod pontio. Bydd y cefnogwyr hyn yn gwneud cyfraniad allweddol at ein gwaith parhaus gyda phartneriaid darparu i asesu eu parodrwydd, i fonitro cydymffurfiaeth unwaith i'r dyletswyddau cyfreithiol newydd gael eu rhoi ar waith ac i werthuso effaith y newidiadau. Bydd hyn yn cael ei gefnogi ymhellach trwy drefniadau archwilio ac adolygu parhaus dan arweiniad Estyn.

61. Byddem yn croesawu eich barn ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran cefnogi pontio a gweithredu.

[4] http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2017/ALN/?lang=cy